CAEL EIN DIDDANU YM MHOB GORTHRYMDER

Nodyn i'r siaradwr:

Traddodwch yr anerchiad mewn dull cysurlon, yn gynnes a chyda theimlad. Helpwch rai isel eu hysbryd i weld fod Jehofah yn gofalu amdanyn' nhw, gan dynnu sylw at sut mae'n darparu cysur yn yr "amserau enbyd" hyn

MAE ANGEN CYSURO AR YR HOLL GREADIGAETH (4 mun.)

Mae mawr angen cysuro ar yr holl ddynoliaeth (Rhuf 8:22)

Mae angen cysuro hefyd ar bobl Jehofah

'Rydym yn byw mewn "amserau enbyd" (2Tim 3:1)

Rhaid inni hefyd ymgodymu â'n cnawd amherffaith ein hunain (Rhuf 7:21-24)

Ble mae dod o hyd i'r cysur sydd ei angen arnom?

PAN WYNEBIR CHI GAN DREIALON, TROWCH AT 'DDUW POB DIDDANWCH' (12 mun.)

Fe all Jehofah, 'Duw pob diddanwch' ein helpu ni i ddyfalbarhau o dan bob amodau ac amgylchiadau (2Cor 1:3, 4)

Ysgrifennwyd ei Air i roi anogaeth a gobaith (Rhuf 15:4)

Anfonwyd ei Fab i'n cysuro â neges bywyd

Fe sicrhaodd y galarus y caent eu cysuro (Mth 5:4)

Byddai'n rhoi gorffwystra i'r rhai "llwythog" (Mth 11:28-30)

Fe ganfu Paul gysur yn Jehofah er gwaethaf llawer o galedi drwy gydol ei weinidogaeth (2Cor 4:7, 16-18)

Fe restrodd 23 math o dreialon neu erlid yn 2 Corinthiaid 11:23-27 (*w*82 12/1 12-22)

Gallai Paul a Silas ganu mawl i Jehofah er gwaethaf erlid creulon am bregethu (Act 16:19-25)

Rhwygwyd eu dillad oddi amdanynt, a churwyd nhw a'u rhoi mewn cyffion (adnodau 22-24)

Buont yn gweddio, a chanu mawl i Dduw, er mwyn i bawb glywed (adnod 25)

Rhyddhaodd Jehofah nhw trwy gyfrwng gwyrth (adnod 26)

Yn eu tro, fe fu iddyn' nhw gysuro ceidwad y carchar a'i deulu â'r newydd da (adnodau 27-34)

Gallwn ninnau edrych i gyfeiriad Jehofah am gysur a help yn amser caledi (Salm 55:22; *w*92 4/15 26-30; *w*92 5/1 26-9; *w*92 5/15 28-31 neu ffynhonnell gyfoes arall)

"Efallai fy mod wedi fy ynysu oddi wrth fy nghyd-ddynion, ond ni allai neb fy ynysu oddi wrth Dduw. Dyna nerth ysbrydol a chysur a ddaeth i'm rhan trwy weddi! . . . 'Does 'na ddim gynnau, na muriau, na barrau carchar a all rwystro ysbryd Duw rhag cyrraedd ei bobl! . . . Gyda nerth hollalluog Duw mae e'n medru gwneud i'r mwyaf eiddil ohonom ennill buddugoliaeth lwyr yn wyneb erledigaeth!" (Cenhadwr mewn carchariad unigol yn Tsieina) (*w*72 9/1 524-5)

SUT MEDRWN DDERBYN CYSUR GAN JEHOFAH (10 mun.)

Rhaid inni dderbyn a chymhwyso'r help mae Jehofah yn ei estyn inni drwy ei ysbryd, ei Air, a'i gyfundrefn (Heb 13:5b, 6)

Mae astudio rheolaidd a chael rhan yn y cyfarfodydd yn ein cryfhau ni yn erbyn ymosodiadau Satan (Salm 1:1-3; Heb 10:24, 25)

Gwnewch eich hun yn gyfarwydd â gweithredoedd Jehofah (1Cor 10:6, 11)

Mae myfyrio yn angori gwirioneddau yn ddwfn yn y meddwl a'r galon (Phil 4:8)

Pan gewch eich ynysu neu eich wynebu gan brawf sydyn, rhowch yr egwyddorion a ddysgwyd eisoes ar waith (Salm 105:5)

Caiff gweddiau gweision Jehofah eu clywed yn y fan (2Cron 7:1; Neh 2:4-6; Lc 3:21, 22; Act 9:11, 12; 10:30, 31)

Mae gweddiau cyson yn bwysig (Mth 26:41)

Yn gwbl angenrheidiol adeg cyfyngder (Salm 77:2)

Cadwch ddarlun meddyliol o Jehofah o'ch blaen (Act 2:25, 26)

Wrth inni ymdrechu i ddyfalbarhau yn ffyddlon, mae e'n ein helpu a'n cysuro ni, fel mae e wedi gwneud i'w bobl yn y gorffennol ac yn y cyfnod modern

EFELYCHWCH JEHOFAH DRWY GYSURO ERAILL AR BOB CYFLE (12 mun.)

Mae Jehofah yn ein diddanu a'n cryfhau ni fel medrwn annog a diddanu eraill (2Cor 1:4)

Cysurwch yr isel eu hysbryd, yr unig, y gwangalon (1Thes 5:14; *w*90 3/15 26-8)

Nid anghofia Jehofah eu gwasanaeth ffyddlon (Heb 6:9-11)

Anogwch nhw'n gariadus i edrych yn gadarnhaol ar sefyllfaoedd a phethau na fedrant eu newid (1Cor 10:13; Heb 12:1-3)

Helpwch nhw i sylweddoli fod 'Duw diddanwch' yn gofalu (Salm 41:3; 1Pedr 5:7)

Mae gan y rhai sydd yn mynd trwy ddrws angau hyd yn oed sail gobaith yr atgyfodiad (Job 14:13-15; *w*86 10/1 12-13)

Dewch â gobaith yr atgyfodiad i rai sydd â'u hanwyliaid wedi marw (Iago 1:27, troednodyn *NW Ref.;* In 11:23-25)

Mae gwybod am gyflwr y meirw yn gysur (In 11:11, 14; Preg 9:5)

Cysurwch y rhai â chartref toredig, plant gwrthryfelgar (Salm 27:10; Eseia 49:15)

Mae Gair Duw yn cwmpasu pob cyflwr ac amgylchiad (2Tim 3:16, 17)

'YDYCH CHI'N GWERTHFAWROGI DARPARIAETHAU JEHOFAH I'N CYSURO NI? (7 mun.)

Mae'r rhai sy'n parchu darpariaethau Jehofah yn mwynhau ffydd gadarn a gobaith diwyro (1Pedr 5:7-10)

Derbyniant ddiddanwch er yn "ddigalon" (2Cor 7:6; 2Thes 2:16, 17)

Fodd bynnag, mae rhai yn colli'u gwerthfawrogiad o ffyrdd Jehofah, gan fynd yn ôl i'r byd

Efallai iddynt faglu, teimlo'n ddolurus, neu flino a "mynd gyda'r llif" (Heb 2:1; Rhuf 14:13)

Fe all eu bod nhw'n teimlo'n annheilwng o ddaioni Duw oherwydd cydwybod ddrwg

Mae eraill efallai yn teimlo'n annheilwng oherwydd eu dull byw drwg gynt

Gallant gael cysur yn nameg y mab afradlon (Lc 15:11-24)

Efallai y teimlant yn edifar a throi i wneud ewyllys Duw (Mth 21:28-32)

Dylem ddymuno helpu rhai sy'n fodlon i ddychwelyd at Dduw tra bod amser (Gal 6:1)

Bydd yn rhy hwyr pan fydd y "gorthrymder mawr" yn cychwyn (2Cor 6:1, 2)

Byddwch yn fodlon astudio gyda rhai sy'n dymuno

Cysurwch nhw gyda dealltwriaeth ddyfnach o'r gwirionedd (Heb 5:12-14)

Dysgwch nhw i roi Gair Duw ar waith yn eu bywydau

Boed inni helpu pawb i agosáu at Jehofah nid dim ond er mwyn cysur 'nawr ond hefyd er mwyn iachawdwriaeth (1Cron 28:9)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)